

O Focs ar Fore Sul gan Eryl Wyn Rowlands


Ambell Sul, ar ôl dod o'r capel, mi fyddaf Ai a'r hogiau yn picio i sêl cist car Mona. Dydi hi ond lawr y ffordd. Rhyw bum munud ar daith, fwy neu lai. Hen fore digon oer oedd hi, ddim yn dywydd magu gwaed o bell ffordd, pan welais lyfr clawr caled coch o faint quarto ac arno, mewn llythrennau aur, 'HARLECH - SKEAF' a'r pris yn newydd yn dri swllt a chwe cheiniog. O'i fodio, gweld mai cantata oedd hi gyda geiriau Cymraeg a Saesneg. Diddorol. Ac o holi'r pris, cefais wybod mai pum ceiniog oedd pris popeth yn y boc. Fedrwn i ddim bargeinio! A dyma brynu.

Diddorol yw'r wyneb-ddalen, llun o'r cyfansoddwr a lluniwr y geiriau Saesneg a'r wybodaeth mai Isaac Foulkes, y cyhoeddwr prysur o Lerpwl oedd awdur y geiriau Cymraeg. Argraffwyd y gwaith yn Llundain a'i gyhoeddi yno gan yr argraffwyr, ac yn Lerpwl gan M. J. Skeaf, 63 Grove Street. Mae Isaac Foulkes yn gymeriad digon hysbys ond pwy oedd Joseph Skaife?

Yn ffodus roedd bywgraffiad byr o'r cyfansoddwr yn nechrau'r gyfrol wedi ei ysgrifennu gan 'R. G. Snodland, Kent'. A'r cwestiwn nesaf oedd; pwy oedd hwn? Doedd yna ond un dewis. Logio ymlaen ar y we fyd eang. Roedd cymdeithas hanes lleol yn Snodland, ac o fewn rhyw dair awr cefais wybodaeth. Redman Goldsack oedd yr awdur. Iawn. Rhoi'r enw i mewn i Google a... dyna fwy o wybodaeth.

Ganwyd Redman Goldsack yn Adelaide, Awstralia ar Dachwedd 19, 1838 i Stephen a Jane Goldsack. Hwylasant hwy o Greenwich ar y llong *Trusty* ar Ragfyr 3, 1837, lai na phytnefnos wedi eu priodas. Symudodd y teulu i Sydney erbyn 1844. Hwylodd Redman, y plentyn hynaf am Loegr ym 1861, glanio yn Llundain a phiodi maes o law efo Elizabeth, merch o Lundain. O droi i Gyfrifiad 1881 gwelwn eu bod erbyn 1869 yn byw yn 237 Upper Parliament Street, Lerpwl. Rhwng 1869 a 1879 ganwyd saith o blant iddynt. Dyma'r cyfnod pan ddaeth i adnabod Joseph Skaife. Symudodd y teulu o Lerpwl am Snodland ym 1886, gan aros yno hyd 1892. Symudodd i Longton ym 1892 cyn symud i Salford ddwy flynedd yn ddiweddarach. Bu'n gweinigogaethu yno hyd 1901. Dilynwyd ef yn y weinidogaeth Swedeborgaidd gan un mab ac un wŷr. Bu Redman Goldsack farw ym 1904.

Onid pwy oedd Joseph Skaife? A beth oedd y cysylltiadau Cymreig? Ganwyd Joseph Skaife yn Lerpwl ar Dachwedd 10, 1836. Dangosodd alluoedd cerddorol yn ieuanc a dod yn organydd cynorthwyol i'w dad yn yr Eglwys Swedeborgaidd yn Lerpwl. Aeth i weithio fel clerig yn swyddfa Allsop, y bragwyr. Tra yno gwelodd yr asiant, Edward M. Nuttall, ei fod yn gwastraffu ei ddoniau yno, a pherswadiodd ef i gymryd addysg gerddorol ffurfiol. Bu am gyfnod efo dau athro preifat, George Holden a — Isaacs. Priododd ar Awst 7fed, 1858 efo un o ddisgyblion Holden, Mary Lucy Gaskill, oedd ddwy flynedd yn iau nag ef. Hon oedd y briodas gyntaf yn yr eglwys newydd yn Lerpwl. Ac yn fwy diddorol efallai, Joseph Skaife oedd y baban cyntaf i gael ei fedyddio yno. Fel gwerthfawrogiad o'i waith efo cerddoriaeth yr eglwys, cyflwynwyd rhodd o £10 gini iddo. Ni fu plant iddynt, a gwnâi'r ddau eu bywoliaeth fel 'Professors of Music' o'u cartref yn 63



Grove Street erbyn 1881.

Nid oes ond pum daliad o'i waith yn y Llyfrgell Genedlaethol, ond rhestrir naw unawd o'i eiddo, tair rhangan a naw gwaith offerynnol o'i eiddo yng nghefn y gantata, a chyfeirir at fwy yn y bywgraffiad. O'r rhain i gyd mae un rhangan dan y teitl 'March of the Men of Harlech' a thri gwaith offerynnol dan y teitlau 'The Camp' - Welsh Melodies, 'Jenny Jones' a 'The March of the Men of Harlech.' Rhestrir 'Hen Alawon Cymreig' ganddo yng nghatalog y Llyfrgell hefyd, wedi ei gyhoeddi yn Lerpwl ym 1870 gan Isaac Foulkes. Fodd bynnag, ymddengys mai'r cantata, 'Harlech' yw'r unig waith swmpus iddo gyhoeddi. Ni wyddys cefndir ei chyfansoddi, ond o gofio mai 'Gwarchae Harlech' oedd y testun a roddwyd am gyfansoddi cantata yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe, 1863, tybed a oedd Skeaf yn gystadleuydd? Beth bynnag, nid efe gafodd y wob. Nid oes dyddiad cyhoeddi ar y copi, ond cyfeirir at ei farw ym 1884 yn y bywgraffiad, a chan i Redman Goldsack ond bod yn Snodland o 1886-89, rhaid fod y dyddiad o 1888 a roddir yng nghatalog y Llyfrgell Genedlaethol tua'i le. Cyfansoddodd, hefyd, nifer o anthemau ac emyn donau.

O restr y gweithiau cyhoeddedig ganddo, mae'n amlwg fod ganddo ddiddordeb, hefyd, mewn alawon Albanaidd, Gwyddelig

a Seisnig, ac roedd yn ffigwr o bwys ym mywyd cerddorol Lerpwl. Bu'n arweinydd yr 'Apollo Glee Club' am flynyddoedd. Roedd yn banydd ac organydd o gryn safon. Roedd yn aelod o'r Seiri Rhyddion, ac ef oedd meist cyntaf Cyfrinfar Apollo 2042 yn ystod 1884, blwyddyn ei farwolaeth o gancr. Bu'n organydd Rhanbarth Saeryddol Gorrlewin Lancashire am bymtheng mlynedd.

Rhyfedd fel mae rhywbeth yn procio'r cof o bryd i'w gilydd. Pan welais yr enw Skeaf ar glawr y cantata, gwyddwn fy mod yn gyfarwydd â'r enw yn barod o rywle. Roeddwn yn iawn!

Cynhaliwyd Cyngerdd 'Anglo-Cambrian' Mawreddog yn Neuadd San Siôr, Lerpwl, ar Chwefror 12, 1867. Ynddo fe roddwyd perfformiad o gantata newydd John Thomas, 'Pencerdd Gwalia,' 'The Bride of Neath Valley. Edith Wynne a'i chwaer, Kate, oedd y prif unawdwyr gydag Elsie Clifford, W. H. Cummings, Lewis Thomas a Llew Llwyfo, yn unawdwyr. Côr William Parry, Cymdeithas Gorawl y Cambrian Penbedw (70 llais) a ganai'r cytganau. Y prif offerynwyr oedd John Thomas - 'Pencerdd Gwalia', W. T. Best, Mr Streather a Mr Skeaf. A dyma Joseph Skaife o'r diwedd yn ei le. Drannoeth y Nadolig, 1867 roedd yn cyfeilio i Gymdeithas Gorawl y Cambrian, Penbedw, unwaith eto gyda Kate Wynne yn un o'r unawdwyr. Mae'n amlwg ei fod yn gyfeilydd poblogaidd yn Lerpwl oblegid cyfeiliai yn Eisteddfodau'r Gordofigion yn y 1870'au hefyd.

Adroddir yn y bywgraffiad fod ei gyfansoddiadau yn boblogaidd iawn yng Nghymru. Gall hyuny fod yn wir. Ond enw a lwyr anghofwyd yw Joseph Skaife. Ond bu gwario pum ceiniog yn sêl cist car Mona yn fodd i ddwyn ei enw i sylw. A beth am y Gantata? Does yna ddim arbenigrwyd mawr iddi, ond mae'n berffaith ganadwy a phleserus ac yn ddrych o gyfansoddiadau y cyfnod. Does dim dadl nad yw yn gyfrol brin, ond dydi hi ddim yn werthfawr.

Sawl copi argraffwyd tybed? Sawl copi sydd wedi goroesi?

Gwn am bedwar, un yn Aberystwyth, un yng Nghaer, un gennyf fi ac un yn y Llyfrgell Frenhinol yn Sandringham. O leiaf bu copi yno un tro.

Onid y ffaith fwyaf eironig efallai yw fod 'Llew Llwyfo' wedi cripio i mewn i'r stori ddaeth o focs ar fore Sul.

(Carwn ddiolch i'r Parch Norman Ryder, Caer, am ei gymorth gyda rhai manylion yn yr ysgrif yma.)

AR WERTH

Cylchgronau:

Y Beirniad 1893, *Diwinyddiaeth* 1957 - £1 yr un.
The Celtic Review 1911, 2 gyfrol.
Yr Arloestwr Newydd 1959.

Y Cymro 1963, 1964 - £1 yr un.

Wales, The Story of the Nations,

O. M. Edwards, 1901 - £20.

Hen gardiau post o ddechrau'r 20 ganrif ymlaen, prisiau 50c i fyny (i'w drafod).

Ymholer â Mari Ellis ar (01970) 617171

Dafydd ap Gwilym - Fifty Poems, H. Idris Bell a David Bell.

Alawon y Bryniau, J. D. Jones, Rhuthun.

Gleanings from God's Acre, Myrddin Fardd.

Cysyllter ar (01248) 353463

Llyfr Newydd

Achau rhai o deuluoedd hen siroedd Caernarfon, Meirionnydd a Threfaldwyn, T. Ceiri Griffith

Dilyniant i'r gyfrol *Achau ac Ewyllysiau Teuluoedd De Sir Gaernarfon*, gan yr un awdur, yw hwn.

Mae'n cynnwys dros 250 tudalen A4 o achrestrau, rhai ohonynt yn ehangu'r tablau a gyflwynwyd yn y gyfrol gyntaf. Ceir hefyd fynegai hir o enwau cartrefi sydd yn ymddangos yn y gwaith ac fe restrir hefyd yr ewyllysiau a ddefnyddiwyd. Pris £30.

Mae taflen gyda mwy o fanylion ar gael gan yr awdur o Gaerddu Fawr, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SY.